

Nuffield Family Justice Observatory

# Babanod newydd-anedig mewn achosion gofal brys yng Nghymru a Lloegr: Diweddariad



**Awduron**
Charlotte Edney a Mary Ryan

**Mae'r papur hwn yn dadansoddi'r data mwyaf diweddar sydd ar gael am nifer y babanod newydd-anedig mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr a'r defnydd o wrandawiadau cychwynnol yn ymwneud â babanod newydd-anedig a gynhelir ar fyr rybudd.**



### Awduron

Charlotte Edney
Mary Ryan

### Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i Charlotte Casey am ei gwaith ar y graffiau mynychder.

### Cyfeiriad argymelledig

Edney, C. a Ryan M. (2025). Babanod newydd-anedig mewn achosion gofal brys yng Nghymru a Lloegr: Diweddariad. Papur briffio. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/newborn-babies-in-urgent-care-proceedings-in-england-and-wales-an-update

### Ymwadiad

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad.

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2025
100 St John Street, Llundain EC1M 4EH Rhif ffôn: 020 7631 0566
Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestredig 206601
nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound

# Beth sydd yn y papur briffio


| | |
|---|---|
| i | Nodiadau |
| 01 | Canfyddiadau allweddol |
| 02 | Niferoedd a chyfraddau |
| 09 | Defnydd o wrandawiadau brys |
| 14 | Casgliadau |
| 15 | Llyfryddiaeth |




# Nodiadau

Mae'r papur briffio hwn yn dadansoddi'r data mwyaf diweddar sydd ar gael am nifer y babanod newydd-anedig mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr a chyfran y gwrandawiadau cychwynnol yn ymwneud â babanod newydd-anedig a gynhelir ar fyr rybudd. Am y tro cyntaf, rydym hefyd yn gallu adrodd ar ethnigrwydd babanod mewn achosion gofal yn Lloegr.

## Ynglŷn â'r data a'r termau a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn

Mae ein dadansoddiad wedi'i ddiweddaru wedi'i seilio ar ddata Cafcass a Cafcass Cymru, 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2023. Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio data dienw a ddelir yn y Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) (https://saildatabank.com). Hoffem gydnabod yr holl ddarparwyr data sy'n sicrhau bod data dienw ar gael ar gyfer ymchwil.

Roedd ein sampl yn cynnwys 48,605 o fabanod yn Lloegr a 4,432 yng Nghymru a oedd yn destun cais achos gofal (a.31).

At ddibenion y dadansoddiad hwn:

- diffinnir 'baban' fel plentyn iau na blwydd oed
- diffinnir baban newydd-anedig fel baban iau na phythefnos oed, er y gallai fod hyd at 6 diwrnod yn hŷn, oherwydd bod y data sylfaenol yn ymwneud â'r wythnos eni.

Mewn achosion pan fydd angen i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau'n gyflymach ar ôl cyhoeddi achos gofal, gellir gwneud cais am wrandawiad gorchymyn gofal interim (ICO) brys. Mae Cafcass yn categoreiddio gwrandawiadau brys fel a ganlyn, ac fe'u defnyddiwn yn y papur briffio hwn:

- mae gwrandawiad byr rybudd yn digwydd o fewn saith diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r cais
- gwrandawiad brys yw pan fydd y gwrandawiad cyntaf yn digwydd llai na thri diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r cais gofal [sylwch fod ein hymchwil yn mesur un neu ddau ddiwrnod]
- mae gwrandawiadau ar yr un diwrnod yn digwydd ar y diwrnod y cyflwynir y cais gofal, hynny yw, heb roi unrhyw rybudd.

Mewn rhai mannau, rydym wedi cynnwys dadansoddiad o adroddiadau blaenorol (gweler 'Cyhoeddiadau cysylltiedig' yn y llyfryddiaeth) er mwyn cymharu a monitro tueddiadau dros gyfnod hwy.

## Sut i gysylltu

Os oes gennych gwestiynau am yr ymchwil a'n gwaith yn y maes hwn, cysylltwch â: contactfjo@nuffieldfoundation.org

Ar gyfer yr holl ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â: mediafjo@nuffieldfoundation.org


# Canfyddiadau

- Yn Lloegr:
  - mae nifer y babanod mewn achosion gofal wedi bod yn gostwng ychydig yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf – o 5,757 yn 2019/20 i 5,354 yn 2022/23
  - fodd bynnag, cynyddodd cyfran y babanod hyn sy'n iau na phythefnos oed (babanod newydd-anedig) o 52% yn 2019/20 i 55% yn 2022/23
  - mae cyfradd y babanod newydd-anedig sy'n dod yn destun achos gofal wedi parhau i godi o 49.1 o fabanod newydd-anedig fesul 10,000 o enedigaethau byw yn 2019/20 i 50.6 yn 2022/23.
- Yng Nghymru:
  - mae nifer y babanod mewn achosion gofal wedi gostwng yn raddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf – o 413 yn 2019/20 i 344 yn 2022/23
  - mae cyfran y babanod hyn sy'n iau na phythefnos oed wedi aros yr un fath, sef 51%
  - mae cyfradd y babanod newydd-anedig sy'n dod yn destun achos gofal wedi gostwng o 70.4 fesul 10,000 o enedigaethau byw i 62.6 fesul 10,000 o enedigaethau rhwng 2019/20 a 2022/23.
- Mae nifer y babanod newydd-anedig sy'n destun gwrandawiad ar yr un diwrnod wedi cynyddu o 1 ym mhob 10 i 1 ym mhob 5 yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yng Nghymru a Lloegr.
- Mae'n werth ymchwilio ymhellach i amrywiadau rhanbarthol yng nghyfraddau babanod newydd-anedig mewn achosion gofal a'r defnydd o wrandawiadau byr rybudd.
- Mae data dibynadwy am ethnigrwydd ar gael ar gyfer Lloegr yn unig ac mae'n dangos bod babanod ag ethnigrwydd cymysg neu luosog yn cael eu gorgynrychioli mewn achosion gofal.

# Niferoedd a chyfraddau




# Nifer y babanod mewn achosion gofal yn Lloegr




Mae nifer y babanod mewn achosion gofal wedi bod yn gostwng ychydig yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn 2022/23, roedd 5,354 o fabanod mewn achosion gofal o gymharu â 5,757 yn 2019/20. O'r rhain, roedd 2,918 yn fabanod newydd-anedig.

Mae'r gostyngiad bach yn nifer y babanod mewn achosion gofal yn gyffredinol yn golygu bod cyfran y babanod newydd-anedig wedi bod yn cynyddu. Yn 2022/23, roedd babanod newydd-anedig yn destun 55% o'r achosion yn ymwneud â phlant iau na blwydd oed, gan godi i 41% yn 2015/16 a 52% yn 2019/20.


# Cyfraddau fesul 10,000 o enedigaethau yn




Mae cyfradd y babanod newydd-anedig sy'n dod yn destun achos gofal wedi parhau i gynyddu – o 49.1 o fabanod newydd-anedig fesul 10,000 o enedigaethau byw yn 2019/20 i 50.6 yn 2022/23. Ni ellir esbonio'r newidiadau yn nifer y babanod newydd-anedig sy'n dod yn destun achos gofal gan newidiadau i'r gyfradd genedigaethau.

Nid yw'r cynnydd mewn cyfraddau ers 2019/20 wedi bod mor fawr â'r cynnydd rhwng 2015/16 a 2019/2020.

# Nifer y babanod mewn achosion gofal yng





Mae nifer y babanod mewn achosion gofal wedi gostwng yn raddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf – o 413 yn 2019/20 i 344 yn 2022/23.

Mae nifer y babanod newydd-anedig sy'n destun achos gofal wedi gostwng hefyd ers cyrraedd brig yn 2018/19 (177 o fabanod newydd-anedig o gymharu â 242), ond nid yw wedi dychwelyd i lefelau 2012/13 eto (146 o fabanod newydd-anedig).

Gan fod y gostyngiad yn nifer y babanod iau na blwydd oed wedi bod yn fwy na'r gostyngiad yn nifer y babanod newydd-anedig mewn achosion, mae cyfran yr achosion sy'n ymwneud â babanod newydd-anedig yn parhau i fod yn 51% (fel yr oedd yn 2019/20) o gymharu â 28% yn 2012/13.

# Cyfraddau fesul 10,000 o enedigaethau yng Nghymru





Mae'r cyfraddau babanod iau na blwydd oed a babanod newydd-anedig sy'n dod yn destun achos gofal wedi gostwng o'u brig yn 2018/19.

Gostyngodd cyfradd y babanod newydd-anedig sy'n dod yn destun achos gofal o 70.4 i 62.6 fesul 10,000 o enedigaethau rhwng 2019/20 a 2022/23.

Gostyngodd y gyfradd yn fwy ymhlith babanod iau na blwydd oed, o 139 i 121.6 fesul 10,000 o enedigaethau byw rhwng 2019/20 a 2022/23.

# Amrywiadau rhanbarthol yng nghyfradd y babanod newydd-anedig sy'n dod yn destun achos gofal





Llundain sydd wedi bod â'r gyfradd isaf o fabanod newydd-anedig sy'n dod yn destun achos gofal bob blwyddyn ers 2015/16.

Swydd Efrog a'r Humber, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr a Chymru sydd â'r cyfraddau uchaf.

Er bod cyfraddau wedi tueddu i 'sefydlogi' yn y rhan fwyaf o ranbarthau eraill, cynyddodd y gyfradd yn Ne-orllewin Lloegr 22% rhwng 2021/22 a 2022/23, ar ôl bod yn sefydlog am 3 blynedd yn olynol.


# Ethnigrwydd Gwyn





Mae'r data'n dangos bod babanod ethnigrwydd cymysg neu luosog yn cael eu gorgynrychioli mewn achosion gofal o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Yn ogystal, mae llai o fabanod Asi,aidd mewn achosion gofal nag y byddech yn disgwyl o ystyried y boblogaeth, ac mae babanod Du wedi'u tangynrychioli ychydig hefyd.

Mae gwaith ymchwil arall gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi canfod bod plant Du ac Asiaidd yn hŷn na phlant o ethnigrwydd arall, ar gyfartaledd, wrth ddod yn destun achos gofal am y tro cyntaf (Edney et al. 2023).

# Defnydd o wrandawiadau brys




# Gwrandawiadau ar yr un diwrnod, brys a byr rybudd yn Lloegr




Mae mwyafrif helaeth yr achosion gofal sy'n ymwneud â babanod yn Lloegr – bron 3 ym mhob 5 – yn wrandawiadau brys, sy'n cael eu clywed o fewn 2 ddiwrnod o wneud cais.

Mae cyfran yr achosion lle cynhelir y gwrandawiad 7 diwrnod neu fwy ar ôl y dyddiad cyflwyno cais wedi bod yn lleihau ers 2015/16.

# Gwrandawiadau ar yr un diwrnod, brys a byr rybudd yng Nghymru





Yn yr un modd, yng Nghymru, mae mwyafrif helaeth yr achosion yn wrandawiadau brys, sy'n cael eu clywed o fewn 2 ddiwrnod o wneud cais.

Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran gynyddol o wrandawiadau wedi cael eu cynnal 3+ diwrnod ar ôl i'r cais gael ei wneud.

Ond, yn ystod y degawd diwethaf, mae'r darlun yng Nghymru yn llai sefydlog nag yn Lloegr, gan ddangos mwy o amrywioldeb o ran mathau o wrandawiadau.


# Mynychder gwrandawiadau ar yr un diwrnod




Roedd bron 1 ym mhob 5 o fabanod newydd-anedig mewn gwrandawiadau byr rybudd (18% yn Lloegr a 19% yng Nghymru) yn destun gwrandawiad ar yr un diwrnod yn 2022/23.

Mae hyn wedi cynyddu o 1 ym mhob 10 yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

# Amrywiadau rhanbarthol yn y defnydd o wrandawiadau ar yr un diwrnod




Mae'r defnydd o wrandawiadau ar yr un diwrnod yn amrywio'n sylweddol o un rhanbarth i'r llall.

Llundain a De-ddwyrain Lloegr sydd â'r gyfran isaf o wrandawiadau ar yr un diwrnod ar gyfer babanod newydd-anedig – mae oddeutu 1 ym mhob 10 o achosion gofal sy'n ymwneud â babanod newydd-anedig yn cynnwys gwrandawiad ar yr un diwrnod.

Gogledd-ddwyrain Lloegr sydd â'r ganran uchaf o wrandawiadau ar yr un diwrnod (oddeutu 40% yn 2022/23), ond bu cynnydd mewn gwrandawiadau ar yr un diwrnod yn Swydd Efrog a'r Humber, hefyd.

# Casgliadau

- Mae'n bwysig monitro newidiadau i nifer a chyfradd y babanod newydd-anedig mewn achosion gofal, a'r defnydd o wrandawiadau byr rybudd - ond mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall y rhesymau wrth wraidd y tueddiadau. Mae ein hymchwil gynharach wedi awgrymu y gallai amrywiadau rhanbarthol yn nifer y babanod newydd-anedig mewn achosion gofal fod yn gysylltiedig â thueddiadau sylfaenol yn y boblogaeth, argaeledd gwasanaethau ataliol a lleoliadau i famau a babanod, ansawdd eiriolaeth gyfreithiol a diwylliant y llys.
- Mae nifer a chyfradd y babanod newydd-anedig mewn achosion gofal yn Lloegr yn ystyfnig o uchel o hyd, er gwaethaf ymdrechion i ddarparu cymorth cyn-geni gwell mewn rhai rhannau o'r wlad (er enghraifft, o fewn safleoedd peilot Mewn Gofal o'u Geni ac ymhlith y cynlluniau braenaru yn rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i Blant yr Adran Addysg). Mae'n bosibl bod gwaith yn y meysydd hyn yn cyfrannu at sefydlogi'r ffigurau yn Lloegr ac y daw gostyngiad mewn ffigurau'n fwy amlwg dros amser.
- Mae'r gostyngiad mewn niferoedd yng Nghymru yn galonogol o ystyried y cynnydd sylweddol cyn 2018/19. Fe allai hyn fod yn gysylltiedig â bodolaeth gwasanaethau cyn-geni arbenigol mewn rhai ardaloedd ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau nifer y plant sydd mewn gofal – er y dangosodd yr ystadegau a gyhoeddwyd yn 2024 gynnydd bach yn nifer gyffredinol y plant sydd mewn gofal (Llywodraeth Cymru 2024).
- Mae'r defnydd mynych parhaus o wrandawiadau byr rybudd yn gysylltiedig â babanod newydd-anedig yn achos pryder o hyd – o ran Erthyglau 6 ac 8 Deddf Hawliau Dynol 1998, ac o ran dyngarwch. Gall gwrandawiad ar yr un diwrnod olygu bod angen i fam fynd i'r llys oriau yn unig ar ôl rhoi genedigaeth. Mae hyn yn codi pryderon difrifol ynglŷn â thegwch gweithdrefnol, gallu rhieni i gymryd rhan yn effeithiol yn yr achosion, a'r posibilrwydd o wneud penderfyniadau brysiog, a allai ddiystyru gwahanol opsiynau gofal o fewn rhwydwaith y teulu. Mae'n ymddangos nad yw codi ymwybyddiaeth o fynychder gwrandawiadau byr rybudd mewn achosion gofal sy'n ymwneud â babanod newydd-anedig wedi arwain at newidiadau i ymarfer, ac mae angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro newid. Gallai archwiliadau pellach ddarparu gwybodaeth werthfawr ynglŷn â pham mae rhai rhanbarthau'n gwneud mwy o gynnydd nag eraill o ran lleihau nifer y gwrandawiadau brys ar yr un diwrnod.
- Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos, unwaith eto, yr angen am gynllunio a pharatoi yn well cyn genedigaeth er mwyn sicrhau bod yr holl bartïon yn cael digon o amser i baratoi a chymryd rhan. Mae'r canllawiau arfer gorau *Mewn Gofal o'u Geni* yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn trwy wella arferion cyn-geni a sicrhau bod asesiadau a'r cymorth yr amlygir bod ei angen yn yr asesiad yn dechrau'n gynnar yn ystod beichiogrwydd, yn ystod y tri mis cyntaf neu'r ail dri mis (Mason et al. 2023). Mae'r canllawiau hefyd yn argymell bod y sail i orchymyn gofal interim brys yn cael ei chyfiawnhau'n glir.

# Llyfryddiaeth



## Rhestr gyfeiriadau

**Edney,** C., Alrouh,B. ac Abouelenin, M. (2023). *Ethnicity of children in care and supervision proceedings in England.* https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2023/05/nfjo_briefing_paper_ethnicity_20230518_FINAL.pdf

**Mason,** C., Broadhurst, K., Ward, H. a Barnett, A. (2023). *Mewn Gofal o'u Geni: Canllawiau arfer gorau pan fydd y wladwriaeth yn ymyrryd ar adeg geni.* https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2023/03/nfjo_newborn-babies_best_practice_guidelines_english_20230330-2.pdf

**Llywodraeth** Cymru. (2024). *Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol: Ebrill 2022 i Fawrth 2023.* https://www.gov.wales/children-looked-after-local-authorities-april-2022-march-2023-html

## Cyhoeddiadau cysylltiedig

**Alrouh,** B., Broadhurst, K., Cusworth, L., Griffiths, L, Johnson, R.D., Akbari, A., Ford, D. (2019). *Mewn Gofal o'u Geni: Babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru.* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2021/05/Born-into-care-Wales-main-report_English_final_web.pdf

**Broadhurst,** K., Alrouh, B., Mason, C., Ward, H., Holmes, L., Ryan, M. a Bowyer, S. (2018). *Born into care: Newborns in care proceedings in England.* https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/born-into-care-newborns-in-care-proceedings-in-england-final-report-october-2018

**Griffiths,** L.J., Broadhurst, K., Cusworth, L., Bedston, S., Akbari, A., Lee, A., Alrouh, B., Doebler, S., John, A. a Ford, D. (2020). *Mewn Gofal o'u Geni: Mil o famau mewn achosion gofal yng Nghymru.* https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/1000-mothers-care-proceedings-wales

**Griffiths,** L., Johnson, R., Broadhurst, K., a John, A. (2021). *Mewn Gofal o'u Geni: Mil o famau mewn achosion gofal yng Nghymru. Pwyslais ar iechyd meddwl mamau.* https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2021/05/nfjo_1000_mothers_focus_on_mental-health_20200224_FINAL.pdf

**Johnson,** D., Alrouh, B., Broadhurst, K. Ford, D., John, A., Jones, K., Cusworth, L., Akbari, A., Smart, J., Thompson, S. a Griffiths, L.J. (2021). *Ffactorau risg iechyd rhieni mewn achosion gofal yng Nghymru.* https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/health-vulnerabilities-parents-care-proceedings

**Mason,** C. a Broadhurst, K. (2020). Discussion paper: *What explains marked regional variations in infant care proceedings.* https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2021/05/regional_infant_removal.pdf

**Mason,** C., Broadhurst, K., Ward, H., Barnett, A. a Holmes, L. (2022). *Mewn Gofal o'u Geni: Datblygu canllawiau arfer gorau ar gyfer achlysuron pan fydd y wladwriaeth yn ymyrryd ar adeg geni.* https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/born-into-care-developing-best-practice-guidelines-for-when-the-state-intervenes-at-birth

**Mason,** C., Broadhurst, K., Ward, H. a Barnett, A. (2023). *Mewn Gofal o'u Geni: Canllawiau arfer gorau ar gyfer achlysuron pan fydd y wladwriaeth yn ymyrryd ar adeg geni.* https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2023/03/nfjo_newborn-babies_best_practice_guidelines_english_20230330-2.pdf

**Pattinson,** B., Broadhurst, K., Alrouh, B., Cusworth, L., Doebler, S., Griffiths, L., Johnson, R., Akbari, A. a Ford, D. (2021). *Babanod newydd-anedig mewn achosion gofal brys yng Nghymru a Lloegr.* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.cfj-lancaster.org.uk/app/nuffield/filesmodule/local/documents/BiC_short_notice_report.pdf

# Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu gwaith dadansoddi ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sy'n ceisio hybu lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd addysg, lles, a chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

I gael rhagor o wybodaeth neu gymryd rhan, cysylltwch â ni drwy anfon neges e-bost at contactfjo@nuffieldfoundation.org neu drwy ffonio +44 (0)20 7323 6242

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2025
100 St John Street, Llundain EC1M 4EH Rhif ffôn: 020 7631 0566
Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestredig 206601
nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO
www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound

Nuffield Family Justice Observatory